# Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 2 Mawrth 2004

## Cynigion a gyflwynwyd ar 18 Chwefror 2004

**NDM1832 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y llynedd ar weithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Cymru; a

2. Yn canmol y cyfraniad aml-asiantaeth sy'n sail i'r strategaeth yng Nghymru.

*Gellir gweld copi o'r strategaeth camddefnyddio sylweddau drwy ddefnyddio'r cysylltiadau canlynol:*

*Cymraeg:*
*http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicy/content/direct/substance/Welsh.pdf*

*Saesneg:*
*http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/direct/Substance%20Misuse%20English.pdf*

## *Cynigion a gyflwynwyd ar 24 Chwefror 2004*

**NDM1834 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu llwyddiant ysgubol cynllun peilot cenedlaethol nofio am ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003, fel yr amlygwyd yn adroddiad Cyngor Chwaraeon Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

2. Yn llongyfarch y partneriaid a oedd yn gysylltiedig â hyn gan gynnwys: awdurdodau lleol, CLlLC, WASA, Ffederasiwn Chwaraeon i'r Anabl yng Nghymru, ac ymrwymiad staff canolfannau hamdden a phyllau nofio.

3. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu nofio am ddim i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2004-05;

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymestyn y fenter nofio am ddim i gynnwys pobl hy^n, gan ddechrau gyda chynllun peilot yn yr hydref.

*Anfonwyd copi o Adroddiad Cyngor Chwaraeon Cymru mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.*

**NDM1835 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004

**NDM1836 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.

**NDM1837 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004.

**NDM1838 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.

**NDM1839 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004

**NDM1840 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004; a

2. b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cynhyrchion Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2004; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.

**NDM1841 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004.

**NDM1842 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo,

Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2004.

**NDM1843 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004.

**NDM1844 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2004; a
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 24 Chwefror 2004.

**NDM1845 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.4, yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn lle Catherine Thomas (Llafur).

## *Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2004*

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1832**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y cam diweddar i ailgategoreiddio canabis yn methu â thorri'r cyswllt rhwng y rheini sy'n masnachu cyffuriau a'r rheini sy'n defnyddio cyffuriau, ac yn condemnio'r dryswch y mae'r cam hwn wedi ei achosi.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod hysbysebu alcohol yn gwneud i yfed ymddangos yn atyniadol i bobl ifanc, ac yn gresynu at ddiffyg pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i wahardd hysbysebu alcohol, ac yn galw ar y Gweinidog i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar drosglwyddo'r pwerau hyn ar frys.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol o fewn y chwe mis nesaf ynghylch sut y mae cyllid y Cynulliad yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

## *Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 20 Chwefror 2004*

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1832**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch y methiant i roi cyfrif am yr holl arian ac adnoddau a ymrwymwyd yn flaenorol o fewn y gyllideb Iechyd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac yn galw ar y Gweinidog i gyflwyno diweddariad yn rheolaidd i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ar ymdrechion i roi cyfrif am yr adnoddau hyn.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gofyn am i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynyddu nifer y cyfleusterau preswyl yng

Nghymru ar gyfer dadwenwyno ac ailsefydlu.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu'r ddeddf sy'n ymwneud â chyffuriau Dosbarth C.

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth lawnach o beryglon gyrru tra dan ddylanwad sylweddau tocsig.

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig :

Wrth gydnabod bod camddefnyddio yn cynnwys sylweddau sydd – er eu bod yn gyfreithlon - yn cael effaith andwyol ar iechyd yr unigolyn a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ein cymunedau, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella rhaglenni addysg sy'n amlygu peryglon alcohol a thybaco.

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru) - TYNNWYD YN OL**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig :

Yn gofyn am i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i broblem y duedd gymdeithasegol ddiweddar o yfed ac ysmygu cynyddol ymysg merched a genethod yn eu harddegau.

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru )**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod llwyddiant ein Heddluoedd yn cyfyngu ar nifer y troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau yng Nghymru.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 26 Chwefror 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1832**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r duedd gymdeithasegol sy'n datblygu ymhlith menywod a merched yn eu harddegau i yfed ac ysmygu mwy, ynghyd â'r cynnydd yn niferoedd yr achosion o ddefnyddio cyffuriau i dreisio.

**NDM1834**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod nofio yn un ymhlith nifer o weithgareddau hamdden sydd yn dda i iechyd a lles unigolion ac a ddylai fod ar gael am ddim i blant a phobl ifanc dan 16 oed yng nghyfleusterau hamdden yr awdurdodau lleol.

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu 'ac ymrwymiad' ac yn ei le rhoi 'a, hefyd, gydweithrediad' .

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le, ac ychwanegu ar ddiwedd y frawddeg 'ac yn galw am gynllun mwy adeiladol, sydd wedi'i addasu i gynnig gwersi nofio am ddim'.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl ‘2003’ ac yn ei le rhoi: 'a llwyddiant cynghorau Rhondda a Chaerffili i ehangu'r cynllun hwn i gynnwys chwaraeon ar dir sych'.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

'Yn galw am ddefnyddio ymgyrch hysbysebu leol a chenedlaethol integredig i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan, yn enwedig ymhlith yr anabl, a'r rhai sy'n derbyn her yr WASA i wella'u sgiliau nofio.